# Cydlynydd Cynhyrchu | Heno/Prynhawn Da

Tinopolis

## Tinopolis - Caernarfon (Swydd Cyfnod Mamolaeth)

Ry’ ni’n chwilio am berson brwdfrydig a threfnus i ymuno â thîm cynhyrchu Tinopolis yng Nghaernarfon ar gyfer cyfnod mamolaeth. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn atebol i’r Uwch Gynhyrchydd ac yn ymwneud â phob agwedd o waith y tîm cynhyrchu ar draws ystod o raglenni gan gynnwys Heno, Prynhawn Da a chyfresi amrywiol.

Bydd cyfrifoldebau yn cynnwys rheoli’r tîm a’r adnoddau drwy’r broses gynhyrchu er mwyn cael y gwerth gorau i’r rhaglenni gan gynnwys amserlenni, trefnu criwiau saethu/ôl-gynhyrchu, logistics a gwaith papur cyn ac ôl-gynhyrchu. Yn ogystal bydd hefyd cyfrifoldeb am amrywiaeth o agweddau rhedeg y swyddfa, trefniadau teithio a gwaith achlysurol ar leoliad.

Sgiliau perthnasol: Y gallu i gyfathrebu, bod yn rhan o dîm, a chreu a chynnal perthnasau gwaith effeithiol â sawl adran yn fewnol ac yn y diwydiant. Person trefnus, hyblyg sy’n gallu blaenoriaethu ac yn cynnig ateb i broblemau.

Rydym yn gwmni sy’n awyddus i adlewyrchu’r cymunedau ry’ ni’n gwasanaethu ac yn credu mewn amrywiaeth a chyfleon cyfartal. Ry’ ni bob amser yn croesawu ceisiadau wrth unigolion o unrhyw oedran, cefndir ethnig, anabledd, rhywioldeb, a chefndir cymdeithasol yn unol â Deddf Gydraddoldeb 2010.

| | |
|---|---|
| **Lleoliad:** | Tinopolis, Galeri Caernarfon, Doc Victoria, Caernarfon, LL55 1SQ |
| **Cyflog:** | yn ddibynnol ar brofiad |
| **Cytundeb:** | Cyfnod mamolaeth |
| **Dyddiad Cau:** | 14 Tachwedd 2025 |

### Manylion pellach

| | |
|---|---|
| **Oriau Gwaith:** | Cyfartaledd o 40 awr yr wythnos ond oherwydd natur y swydd disgwylir hyblygrwydd, gan gynnwys, penwythnosau a gwyliau banc. |
| **Gwyliau:** | Yn ychwanegol i'r gwyliau banc statudol, bydd gennych hawl pro rata i 25 diwrnod o wyliau dros flwyddyn. |
| **Pensiwn:** | Mae hawl gan staff cyflogedig ymuno â Chynllun Pensiwn yn ddarostyngedig i delerau unrhyw gynllun sydd mewn bodolaeth. Os byddwch yn aelod o'r Cynllun Pensiwn, bydd Tinopolis yn cyfrannu 3% o'ch cyflog sylfaenol i'r Cynllun. Disgwylir i chi gyfrannu 5%. |
| **Ceisiadau:** | Dylid anfon ceisiadau mewn ffurf llythyr cais a CV erbyn 12:00 y prynhawn ar ddydd Gwener, 14 Tachwedd 2025 at swyddi@tinopolis.com neu Swyddi, Tinopolis, Galeri Caernarfon, Doc Victoria, Caernarfon, LL55 1SQ |

Yn unol â gofynion Deddf Lloches a Mewnfudo 1996, rhaid i bob ymgeisydd fod yn gymwys i fyw a gweithio yn y DU. Bydd yn ofynnol cael tystiolaeth ddogfennol o gymhwyster gan ymgeiswyr fel rhan o’r broses recriwtio.

Gwybodaeth bersonol a gasglwn amdanoch chi pan fyddwch yn ymgeisio am swydd yn Tinopolis:Wrth wneud cais am swydd, bydd disgwyl i chi ddarparu CV fel rhan o’r broses. Byddwn yn cadw copi o’ch CV ar ffeil am gyfnod o dair blynedd. Pe bai swydd debyg yn codi yn y cyfnod hwn, byddwn yn defnyddio’r wybodaeth er mwyn cysylltu â chi. Gallwch ofyn i ni ddileu eich data personol o’n ffeiliau ar unrhyw adeg. Am ragor o wybodaeth am ein Polisi Diogelu Data, gweler

**http://www.tinopolis.com/privacy-notice/**